



Ein cyf: MA/EM/2971/23

At: Aelodau'r Senedd

29 Ionawr 2024

Annwyl Gydweithwyr,

Presgripsiwn Newydd – A New Prescription – Flwyddyn yn ddiweddarach

Ym mis Ebrill 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, a Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar ystod eang o ddiwygiadau i drefniadau contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn, a ddisgrifir yn fanwl yn [Presgripsiwn Newydd \(llyw.cymru\)](#) yn cadw gwerthoedd traddodiadol a chryfderau sylfaenol fferylliaeth gymunedol, gan ddarparu mynediad parod at weithwyr gofal iechyd proffesiynol dibynadwy, pryd a lle y mae angen hynny ar bobl, gyda chynnig gwasanaeth clinigol sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau newidiol unigolion a chymdeithas.

Mae'r cytundeb yn ymrwymiad clir i gyflwyno newidiadau fesul camau pendant sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y sector ac sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddiwygiadau o dan y pedair thema ganlynol:

- Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol;
- Gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gofal fferyllol rhagorol;
- Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol;
- Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG.

Mae manteision amlwg i gleifion a'r cyhoedd y gellid eu gwireddu drwy ddefnyddio hygyrchedd rhwydwaith Cymru o tua 700 o fferyllfeydd, ynghyd â sgiliau ac arbenigedd eu gweithwyr fferyllol proffesiynol, mewn modd mwy effeithiol.

Mae cyhoeddi [Presgripsiwn Newydd – A New Prescription – Flwyddyn yn ddiweddarach](#), yn crynhoi'r cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y 12 mis ar ôl cyflwyno'r diwygiadau hynny gyda'r nod o gyflawni uchelgeisiau trawsnewidiol.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.